| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Gorffennaf 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy<br>Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Claire MacFarlane, Swyddog Cynllunio |
| **Teitl:** | **Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Carafanau, Chalets a Safleoedd Gwersylla' – Mabwysiadu dogfen derfynol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â dogfen Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar garafanau, chalets a safleoedd gwersylla a fydd, os caiff ei mabwysiadu, yn cael ei defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu adborth ar yr ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y CCA drafft, y diwygiadau arfaethedig ac i ofyn am fabwysiadu'r ddogfen ar gyfer ei defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r CCA arfaethedig (Atodiad 2) i'w ddefnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Os caiff ei fabwysiadu, bydd y CCA hwn yn un o gyfres o ddogfennau CCA sy'n ategu at bolisïau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych. Mae'r CCA yn atodiad i bolisi Hyrwyddo Economi Gynaliadwy (HEG) 12 y CDLl, 'Chalets, Carafanau Statig a Theithiol a Safleoedd Gwersylla', ond hefyd yn cyfeirio at bolisïau HEG 5, 'Economi Wledig', HEG 11, 'Datblygiadau Twristiaeth Newydd Mawr', a HEG 14, 'Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored', lle bo'n berthnasol. Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau ychwanegol ar faterion dylunio a chynllunio y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt yn y cynigion ar gyfer y mathau hyn o lety twristiaid.

4.2 Rhedodd yr ymgynghoriad cyhoeddus am 8 wythnos o 30 Ionawr tan 27 Mawrth 2017. Mae adroddiad o'r ymgynghoriad, sy'n amlinellu'r ymatebion a gafwyd, a diwygiadau arfaethedig i'r CCA, yn amgaeedig fel Atodiad 1. Cafwyd deuddeg ymateb yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Mae'r CCA, gyda'r diwygiadau arfaethedig wedi'u hamlygu ac â ~~llinell drwyddynt~~, ynghlwm wrth Atodiad 2. Mae'r prif newidiadau a gynigir yn cynnwys:

- Eglurhad ychwanegol ar y diffiniadau a ddefnyddir yn y CCA
- Manylion ychwanegol ynghylch ystyriaethau effaith ar y dirwedd a mesurau diwygiedig i wella integreiddiad y safle o fewn nodweddion tirwedd presennol, gyda chyfeiriad penodol at yr AHNE.
- Diwygiadau i adlewyrchu’r amod sy’n cael ei gymhwyso ar hyn o bryd i ganiatâd cynllunio, er mwyn sicrhau’r defnydd o garfanau yn ystod gwyliau.

Cynigir sawl mân ddiwygiad hefyd er mwyn rhoi eglurhad ac i wella strwythur y ddogfen.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r CCA yn cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol o 'Mae’r amgylchedd yn ddeniadol ac yn cael ei ddiogelu, yn cefnogi lles a ffyniant economaidd’ drwy roi canllawiau ar ddatblygu llety i ymwelwyr, sy'n rhan bwysig o gryfhau’r cynnig twristiaeth yn y sir ac yn cyfrannu at economïau lleol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad ar ymgynghoriad a gynhaliwyd ac ar ddiwygiadau arfaethedig i'r CCA. Ni ragwelir y bydd yn creu unrhyw gostau ychwanegol neu’n effeithio ar wasanaethau eraill. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CCA yn gymorth i Swyddogion ac Aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Y prif gasgliadau yw y bydd y CCA yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, ac fe all gael effaith gadarnhaol a negyddol ar fioamrywiaeth. Mae’r Adroddiad Asesiad o Effaith ar Les cyflawn ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd yn fewnol ar y cynnwys a diwygiadau arfaethedig gyda'r Tîm Rheoli Datblygu a’r Timau Trwyddedu. Mae’r Aelodau wedi darparu mewnbwn ar gynnwys y CCA drwy Grŵp Llywio CDLl yr Aelodau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb ganllawiau manwl, mae perygl na fyddai’r Cyngor yn gallu gweithredu polisïau’r CDLl yn effeithiol o ran carfanau, chalets a safleoedd gwersylla.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).